# Ffurflen Caniatâd Claf (16+ oed)

**Rhif y Claf**

Diolch i chi am ddarllen y wybodaeth am roi samplau i VIVO Biobank ar gyfer ymchwil i ganser. Cofiwch fod hyn ar wahân i unrhyw dreial clinigol y gellid gofyn i chi fod yn rhan ohono. Os hoffech gymryd rhan, llythrennwch y blychau isod os gwelwch yn dda.

1. Rwyf wedi darllen a deall y daflen wybodaeth (fersiwn 1a Mehefin 2023 16+) ac wedi gallu gofyn cwestiynau. Mae'r cwestiynau hyn wedi eu hateb yn glir.
2. Rhoddaf ganiatâd i VIVO Biobank storio fy samplau (sy'n weddill i angen clinigol). Byddant ond yn cael eu rhoi i brosiectau ymchwil a gymeradwywyd yn foesegol i ymchwilio i atal, diagnosis a / neu drin canser.
3. Rhoddaf ganiatâd i VIVO Biobank storio samplau ychwanegol, i'w cymryd ar yr un pryd â'r sampl clinigol. Byddant ond yn cael eu rhoi i brosiectau ymchwil a gymeradwywyd yn foesegol i ymchwilio i atal, diagnosis a / neu drin canser.
4. Deallaf fod cymryd rhan yn wirfoddol ac y gallaf dynnu fy nghaniatâd yn ôl ar unrhyw adeg, heb roi rheswm a heb effeithio ar fy nhriniaeth feddygol na fy hawliau cyfreithiol. Os tynnaf fy nghaniatâd yn ôl, bydd samplau a data'n cael eu dinistrio oni bai eu bod eisoes yn cael eu defnyddio mewn ymchwil.
5. Rhoddaf ganiatâd i wybodaeth am fy statws iechyd yn fy nodiadau meddygol gael ei rhoi i VIVO Biobank i'w storio'n ddiogel yn eu databas ar gyfer ymchwil. Deallaf y bydd VIVO Biobank yn cadw'r wybodaeth yn gyfrinachol bob amser a'i storio'n ddiogel yn unol â rheoliadau data a dim ond yn ei rhoi i ymchwilwyr mewn ffordd sy'n diogelu fy manylion adnabod.
6. Deallaf y gall y wybodaeth a gedwir ar gofrestri iechyd cenedlaethol gael ei defnyddio i ddarparu gwybodaeth am fy statws iechyd.
7. Rhoddaf ganiatâd i fy nata meinwe a chlinigol, a gasglwyd gan VIVO Biobank, gael ei gysylltu â data genomig wedi'i gynhyrchu a'i gadw gan NHS England / Genomics England a / neu labordai clinigol eraill.
8. Rhoddaf ganiatâd i fy neunydd genetig gael ei dynnu allan o samplau wedi eu storio gan VIVO Biobank, a'i brofi i bwrpas ymchwil.
9. Deallaf y gallai fy samplau a / neu ddata, gan gynnwys data wedi'i gyhoeddi, fod ar gael i ymchwilwyr ar draws y byd, gan gynnwys gwledydd sydd heb gyfreithiau diogelu data tebyg i rai'r DU, ond na fydd gwybodaeth adnabod bersonol yn cael ei rhannu.
10. Deallaf na fyddaf yn cael gwybod canlyniadau unrhyw brosiectau ymchwil. Os yw ymchwil yn dangos canlyniadau a allai fod yn berthnasol i mi, rwyf yn cytuno y gellir eu pasio ymlaen i fy meddyg i drafod beth orau i'w wneud.
11. Deallaf na fyddaf yn elwa'n ariannol o roi fy samplau. Mae hyn yn cynnwys defnyddio fy samplau mewn ymchwil gan arwain at ddatblygu triniaeth neu brawf meddygol newydd.

## Dewisol

12. Rhoddaf ganiatâd i fy samplau a data gael eu defnyddio mewn ymchwil a gymeradwywyd yn foesegol gydag anifeiliaid ac y gallai deunydd o'r samplau gael ei drosglwyddo i anifeiliaid.
Dangoswch eich dewis drwy lythrennu un blwch. Ydw ☐ Nac ydw ☐

Enw'r claf (PRIF LYTHRENNAU) ........ Llofnod ........ Dyddiad ........

Person yn derbyn y caniatâd (PRIF LYTHRENNAU) ........ Llofnod ........ Dyddiad ........

**1 copi yn ffeil y safle, 1 copi i'r claf, 1 copi i'w gadw yn nodiadau meddygol y claf.**